# Polisi Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

| Crynodeb o'r polisi: | *Rhoi arweiniad i bersonél yr heddlu o ran ymateb i adroddiadau am anffurfio organau cenhedlu benywod.* |
|---|---|
| Rhif y polisi: | *016/2020* |
| Rheoli fersiynau: | <table><tr><th>Fersiwn</th><th>Dyddiad</th><th>Awdur</th><th>Rhesymwaith</th></tr><tr><td>1</td><td>16/10/2015</td><td>Y Ditectif Brif Arolygydd [redacted]</td><td>I'w ddiweddaru</td></tr><tr><td>2</td><td>10/04/2020</td><td>Y Prif Arolygydd Dros Dro [redacted]</td><td>Diweddarwyd ac Ychwanegwyd Arf Asesu Risg</td></tr><tr><td>3</td><td>08/06/2021</td><td>[redacted]</td><td>Adolygiad Blynyddol</td></tr></table> |
| Dyddiad gweithredu y fersiwn: | *01/07/2021* |
| Dyddiad adolygu: | *01/07/2023* |
| Perchennog/cyswllt: (wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd) | *Y Ganolfan Fregusrwydd* |
| Ymgynghori a chymeradwyo | *Y Ditectif Brif Arolygydd* [redacted]<br>*Y Ditectif Uwch-arolygydd* [redacted] |
| Cyfieithiad Saesneg | <table><tr><td>Oes</td><td>✓</td><td>Nac oes</td><td></td></tr></table> |

# 1. Datganiad Polisi

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i roi lefel gwasanaeth i ddioddefwyr Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod sy'n rhoi'r hyder iddynt adrodd am ddigwyddiadau, fel bod amddiffyn a diogelu dioddefwyr ar frig camau dilynol yr heddlu. Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn fath difrifol o gam-drin sy'n ymwneud â phlant yn arbennig. Wrth ymdrin â digwyddiadau, rhaid i swyddogion a staff gadw hyn ym mlaen eu meddyliau ac ystyried y polisi hwn, arferion proffesiynol awdurdodedig a'r Polisi Trais ar Sail Anrhydedd a Phriodasau Dan Orfod wrth ymdrin â digwyddiadau. Bydd unrhyw achos sy'n ymwneud â phlentyn o dan 18 oed yn cael ei ystyried yn fater diogelwch plant, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod mewn modd cadarn a thryloyw oherwydd mae'n groes i iawnderau dynol sylfaenol unigolyn.

Gall Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod effeithio ar unigolion mewn sawl ffordd sy'n medru arwain at ymosodiad difrifol neu farwolaeth. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i ddatblygu ymatebion sy'n cadw pobl yn ddiogel ac yn dal troseddwyr i gyfrif heb ystrydebu, gwarthnodi na gwneud honiadau am unrhyw unigolyn neu gymuned.

**Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):** Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.

# 2. Cwmpas y Polisi

Diben y polisi hwn yw darparu'r gofynion deddfwriaethol y mae'n rhaid glynu wrthynt wrth ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod neu unigolion sydd mewn perygl o anffurfio organau cenhedlu benywod i swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys.

Gan weithio ochr yn ochr â'n hasiantaethau partner, byddwn yn ceisio:

- Ymchwilio i bob adroddiad yn effeithiol, dwyn troseddwyr i gyfiawnder a'u dal nhw'n gyfrifol am eu gweithredoedd.
- Datblygu ymatebion a chadw pobl yn ddiogel a dal troseddwyr i gyfrif heb ystrydebu, gwarthnodi na gwneud honiadau am unrhyw unigolyn neu gymuned.
- Rhoi hyder i ddioddefwyr adrodd am ddigwyddiadau a'u cadw'n rhydd rhag perygl pellach o niwed.
- Ymdrin ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn effeithio a thrwy gynnal prosesau asesu risg trylwyr gyda dioddefwyr i leihau'r tebygolrwydd o niwed, gan gynnwys marwolaethau neu anafiadau difrifol.

Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr Adran Ymchwiliadau Troseddol, Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, y Tîm Pennu Digwyddiadau a Throseddau, yr Uned Asesu Risg Eilaidd, Timoedd Plismona Bro ac Ymateb yr Heddlu a'r Swyddfa Cofnodi Troseddau. Dylai'r holl aelodau staff sy'n gweithio yn y meysydd busnes hynny fod yn ymwybodol o'r polisi.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Y sail gyfreithiol ar gyfer arfer y pwerau a'r dyletswyddau a amlinellir yn y polisi hwn yw:

- **Deddf Hawliau Dynol 1998**
- **Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (ynghyd â Chodau cysylltiedig)**
- **Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996**
- **Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999**
- **Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003**
- **Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985**
- **Deddf Troseddau Difrifol 2015**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi'r rolau a chyfrifoldebau hanfodol ar gyfer ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod. Maen nhw hefyd yn helpu ymarferwyr (ni) i weithredu'r ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 (Cymru).

Cewch ddarllen Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoeliaeth ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Dylai ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol fabwysiadu Ymagwedd Hawliau Plant yn unol â'r ddyletswydd o ystyriaeth ddyledus i'r CCUHP a dilyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bartner sefydliadol y bwrdd diogelu rhanbarthol (gwelwch wefan cysur.cymru) ac fe gynorthwyodd â datblygiad y 'Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion Agored i Niwed'. Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd ag arweinwyr gwasanaethau diogelu, gan gynnwys ein Ditectif Uwch-arolygydd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, ac mae'r darpariaethau canlynol, sy'n berthnasol i oedolion, wedi'u hystyried:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (DU);
- Deddf Diogelu Data 2018;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014;
- Deddf Plant 2004;
- Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan sydd nawr wedi'u disodli gan Weithdrefnau Diogelu Cymru;
- Deddf Plant a Phobl Ifainc 2008;
- Deddf Addysg 2011;
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015;
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
- Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn rhoi hyder i staff o bob sefydliad partner rannu gwybodaeth berthnasol pan mai'r diben yw **amddiffyn** neu **atal** plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed rhag profi cam-drin neu fathau eraill o niwed, a bod rhannu'r wybodaeth hon yn gyfreithlon heb ganiatâd yr unigolion dan sylw.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda GEG er mwyn sicrhau bod ymchwilio i anffurfio organau cenhedlu benywod a'i erlyn yn cael ei gydlynu rhwng asiantaethau. Ceir hyd i'r protocol rhwng Heddlu Dyfed-Powys a GEG ar y fewnrhwyd wrth chwilio am *A Protocol between the Police and the Crown Prosecution Service in the investigation of allegations of FGM*.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma. Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael yma. Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

| **Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | CID – Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 08/06/2021 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 8 Mehefin 2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

**Perchennog y Polisi:** Bydd y polisi hwn yn eiddo i'r Adran Ymchwiliadau Troseddol (CID) a fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi'n rheolaidd am

Ei effeithiolrwydd

Unrhyw newidiadau i reolau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau'r llywodraeth

Heriau i'r Polisi

Unrhyw eitemau aneffeithlon mewn perthynas â gweithredu

**Y Broses Gymeradwyo:**

Bydd y polisi hwn yn eiddo i CID – Diogelu Pobl Fregus.

Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd a gwneud unrhyw ddiwygiadau gofynnol mewn perthynas â newidiadau a diweddariadau mewn canllawiau a deddfwriaethau cysylltiedig.

Bydd unrhyw benderfyniadau cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn yn cael eu gwneud gan Dditectif Uwch-arolygydd Diogelu Pobl Fregus a'r Grŵp Bregusrwydd Strategol.

Mae'r deddfwriaethau a'r prosesau a nodir yn y polisi hwn yn berthnasol ar gyfer holl swyddogion ac aelodau staff yr heddlu sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o gofnodi, pennu ac ymchwilio Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod o fewn HDP. Ceisir cyfeiriadau at oruchwylwyr a rheolwyr am gyngor ac arweiniad pan ystyrir fod hynny'n briodol, fodd bynnag, bydd y broses yn cael ei monitro'n gadarn ac effeithiol gan oruchwylwyr a rheolwyr er mwyn sicrhau gweithrediad parhaus.

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol ar gyfer y polisi hwn:

**Atebolrwydd –** Byddwn yn atebol am y penderfyniadau, camau a'r cyfaddefiadau a wneir mewn perthynas â gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi.

**Gonestrwydd –** Byddwn yn gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

**Unplygrwydd –** Byddwn bob amser yn anelu i wneud y peth iawn.

**Gwrthrychedd –** Bydd gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi a'r penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol gorau.

**Didwylledd –** Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

**Parch –** Byddwn yn trin pawb â pharch.

**Anhunanoldeb –** Byddwn yn gweithredu'n anhunanol ac er budd y cyhoedd.

**COD MOESEG**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | CID – Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 08/06/2021 |

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Cofnodir pob adroddiad a chyfeiriad ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod ar STORM, system gorchymyn a rheoli'r heddlu a PROTECT, y system olrhain achosion ar gyfer ymholiadau amlasiantaeth oedolion bregus a diogelu plant.

Dylai swyddogion rheng flaen gwblhau Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth cyn gynted â phosibl er mwyn cychwyn trafodaeth strategaeth amlasiantaeth. Dyma pryd y bydd cofnod PROTECT yn cael ei greu a'i bennu i dimoedd CID rhanbarthol.

Pan mae galwadau am wasanaeth yn cael eu cofnodi ar PROTECT a'u cofnodi fel trosedd gan HDP, maent yn gael eu goruchwylio'n gadarnhaol yn barhaus.

Rhaid i'r Ditectif Arolygydd ar ddyletswydd neu ar alwad gymryd perchnogaeth cychwynnol o unrhyw bryder neu ymchwiliad anffurfio organau cenhedlu benywod ac ystyried cynllun diogelwch di-oed.

Cyfrifoldeb swyddog yr achos a'i oruchwylydd yw datblygu'r achos, gan ymgysylltu ag asiantaethau partner er mwyn rheoli'r diogelu.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r broses ar gyfer ymchwilio i anffurfio organau cenhedlu benywod, rhoddir hyfforddiant i swyddogion a staff yr heddlu ar gyfer ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | ✓ | 08/06/2021 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i’w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw’r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i’w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i’w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i’w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy’n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau’r adolygiad dylai’r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a’i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi’r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw’r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo’n addas. | | | |